Cyfarfod y Bwrdd Gweithredol

28 Tachwedd 2014
Y Llwyfan, Caerfyrddin
9.30 – 12.30

Cofnod y Cyfarfod

Yn Bresennol: Eifion Evans (EE), Ceredigion; Betsan O'Connor (BOC), ERW; Rob Sully (RS), Sir Gaerfyrddin; Gareth Morgans (GM), Sir Gaerfyrddin; Aled Evans (AE), Castell-nedd Port Talbot; Arwyn Thomas (AT), Abertawe; Edna Davies (ED), Sir Benfro; Mike Gibbon (MG), Castell-nedd Port Talbot; Ruth Lee (RL), ERW
Ymddiheuriadau: Kate Evan-Hughes (KE-H), Sir Benfro; Jonathan Haswell (JH), Sir Benfro; Tanya Wigfall (TW), Llywodraeth Cymru

1. Adolygiad Llywodraeth Cymru

Croesawodd EE bawb i'r cyfarfod a rhoes adborth yn dilyn Adolygiad Llywodraeth Cymru yr wythnos hon. Roedd yr adborth ar lafar yn cynnwys y canlynol:

- Bu'r adborth gan Robert Hill yn gadarnhaol iawn ac roedd wedi bodloni'r meini prawf a dangos enghreifftiau helaeth o arfer da.
- Roedd argymhelliad o'r adolygiad yn dangos bod heriwr allanol ychwanegol yn ofynnol i eistedd ar Bwyllgor y Bwrdd Gweithredol. Mae Mererid Stone, sydd wedi ymddeol ers hynny o Estyn, yn eistedd ar y Pwyllgor ar hyn o bryd, ond mae aelod pellach yn ofynnol a gofynnwyd i'r swyddogion feddwl am enw cyn y cyfarfod nesaf. Cynigiwyd enw Alun Charles.
- Roedd ffederasiynau ledled y rhanbarth yn gweithio'n dda iawn gan ddangos arfer da. Fodd bynnag, roedd Robert Hill a'i dîm yn ansicr ai cyfrifoldeb statudol yr awdurdod unigol yw ymgymryd â ffederasiwn ac nid ERW.
- Barnwyd bod y prosiect TGAU yn arfer rhagorol a chafwyd rhai enghreifftiau da iawn o waith arall sy'n digwydd.
- Gwnaeth yr athrawon, y Cadeiryddion Craffu a'r Swyddogion, a'u hymddygiad, argraff dda iawn.
- Cododd Robert Hill bryder ynghylch Cyfarwyddwyr yn eistedd ar y Bwrdd Gweithredol. Ond roedd pawb a oedd yn bresennol yn credu bod hyn yn hanfodol i'r bartneriaeth, a gallai'r pryder fod oherwydd diffyg dealltwriaeth Robert o'r cytundeb cyfreithiol.
- Gofynnwyd am gopi o'r adroddiad drafft, am gywirdeb ffeithiol, erbyn y dydd Llun canlynol, ond oherwydd amgylchiadau personol nid oedd Robert Hill yn gallu gwneud hyn. Roedd EE wedi siarad â Steve Vincent, Llywodraeth Cymru a gofyn iddo anfon adroddiad drafft cyn gynted â phosibl.
- Roedd y rheini a oedd yn bresennol am nodi bod y Gweinidog wedi gorchymyn adolygiad o ERW, oherwydd siom y Gweinidog ynghylch y ffordd y cynhaliwyd y cyfarfod Herio ac Adolygu a bod ALlau ac ysgolion wedi'i herio. Cynhaliodd Robert Hill a'i dîm adolygiad 3 diwrnod ond nid oedd eu canfyddiadau'n cynnwys dim ond mân faterion, a'r cyfan ohonynt yn gwrth-ddweud barn y Gweinidog am y ffordd y caiff ERW ei redeg ac am ei ddiben. Bydd EE a BOC yn cyfarfod â gweision sifil Llywodraeth Cymru a gweinyddion y Gweinidog cyn unrhyw gyfarfodydd Herio ac Adolygu yn y dyfodol.
- Roedd EE wrth ei fodd â'r canlyniad cadarnhaol iawn a diolchodd i bawb dan sylw, yn enwedig BOC.

Cytunwyd	Camau Gweithredu
• **Chwilio am heriwr allanol ychwanegol i'r Bwrdd Gweithredol.**	• **Bod y Cyfarwyddwyr yn chwilio am enwau heriwr allanol i eistedd ar y Bwrdd Gweithredol.**

2. Cofnod y Cyfarfod Diwethaf

- Cadarnhawyd bod cofnod y cyfarfod yn gywir.
- Nid oedd EE wedi cael unrhyw sylwadau gan Gyfarwyddwyr ynghylch Tŷ Llidiard. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
- Nodwyd bod y Bwrdd Cyflawni wedi cynnal dadansoddiad bwrdd gwaith manwl o ddata L2+ ledled y

rhanbarth ac nad oedd unrhyw gamau pellach yn ofynnol.

- Nodwyd bod Betsan wedi siarad â CFBT ynghylch coladu adborth gan Benaethiaid a chyd-ddatganiad gan ysgolion, ond ei bod wedi ymddangos bod ysgolion yn mynd yn syth at CFBT ac yn gofyn am gymorth. Cytunwyd na fyddai'n ymgymryd ond â rhai materion penodol.
- Dylid mynd i'r afael â'r pryderon hyn ynghylch CFBT gyda CCAC.
- Nodwyd bod Alan Edwards wedi cymryd drosodd rôl Cynrychiolydd CFBT, a bod hyn yn lleihau rhai risgiau.
- Roedd BOC wedi cyfarfod â Kate Crabtree ynghylch Bagloriaeth Cymru. Mae ERW wedi cael gwybod bod hyn yn wirfoddol ac y byddai'r ysgol unigol yn penderfynu a fyddai'n dymuno ymgymryd â Bagloriaeth Cymru yn yr ysgolion o'r flwyddyn nesaf. Bydd mwyafrif yr ysgolion sy'n ymgymryd â Bagloriaeth Cymru'n treialu'r fenter hon. Mae BOC wedi ceisio adnoddau ychwanegol am y gwaith hwn. Tua £20k i bob hwb.
- Dywedodd AE wrth y grŵp fod y mater ynghylch diogelu ac athrawon llanw yn mynd rhagddo.
- Nodwyd bod y trefniadau wedi'u cymryd i'r Cyfarwyddwyr ysgrifennu at bob ysgol yn eu hawdurdod yn eu hatgoffa o bwysigrwydd athrawon llanw yn bodloni'r safonau lleiaf gorfodol.

Cytunwyd	**Camau Gweithredu**
• Derbyn bod cofnod y cyfarfod yn gofnod cywir.	• Gosod Tŷ Llidiard ar yr agenda am y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi o dan Ddiweddariad y Cyfarwyddwr Arweiniol a'r Rheolwr Gyfarwyddwr

3. Cyllid

- Nodwyd bod y Cydbwyllgor wedi cyfarfod ar ddydd Llun a thrafod pob agwedd ar gyllid fel y nodwyd yn yr adroddiad Adran 151.
- Nodwyd y bydd 3 ffrwd ariannu newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, fodd bynnag, hyd yma ni chafwyd llythyrau cynnig ar gyfer y grantiau hyn.
- Byddai cyllid y flwyddyn nesaf yn mynd yn syth i'r ysgolion gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion a Grantiau Gwisg Ysgol.
- Nodwyd y bydd y costau trefnu archwiliad yn cynyddu. Fodd bynnag, nes cael cyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r gost yn aneglur.
- Bydd cyllidebau'r Grant Cymraeg mewn Addysg/Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, 14-19 i gyd yn lleihau.
- Efallai bydd cyllid y Cyfnod Sylfaen yn cael ei glustnodi.
- Sian Pascoe i edrych ar y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a chydweithio ag awdurdodau eraill. Cytunwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Cyflawni.
- Bydd cyllid grant yn gostwng £11 miliwn yn gyffredinol am y flwyddyn nesaf.

Cytunwyd	**Camau Gweithredu**
• Sian Pascoe i wneud gwaith ar y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig	• Sian Pascoe i gydweithio ar y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a dychwelyd i BOC cyn diwedd y tymor.

4. Cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop

- Nodwyd nad oedd neb wedi ateb EE o ran arwain y gwaith ar Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Am mai Sir Benfro yw arweinydd ariannol y rhanbarth, dylid holi efallai a fyddai'n derbyn y cyfrifoldeb am gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- BOC ac EE i gysylltu â Jon Haswell, Prif Swyddog Cyllid gyda Chyngor Sir Penfro, a holi a fyddai'n dod i gyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol i drafod posibilrwydd Sir Benfro'n arwain gwaith cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Cyflwyno'r eitem hon i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf.

Cytunwyd	Camau Gweithredu
	• Jon Haswell i ddod i'r cyfarfod nesaf • Trafod Cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y cyfarfod nesaf

5. Polisi Diogelu

- Roedd Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant ar gyfer ERW ar gael ar ffurf ddrafft. Ar ôl trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd Cyflawni y bore yma, roedd rhai materion wedi codi.
- BOC i edrych ar gael Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ledled y rhanbarth yn ogystal ag edrych ar Ymgynghorwyr Her yn cael un Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer cludadwyedd. A allai ERW ddod yn gorff cofrestru?

Cytunwyd	Camau Gweithredu
• Cael cyngor parthed GDG i'r rhanbarth	BOC i gael cyngor am GDG i'r rhanbarth.

6. Cynllun Busnes 2015-16

- Dywedodd BOC wrth y grŵp y byddai'r themâu canlynol yn cael eu cynnwys yn y cynllun oherwydd yr anghenion a nodwyd.
  - Cymorth ysgol i ysgol
  - Canlyniadau Prydau Ysgol am Ddim
  - Perfformiad bechgyn
  - Hyfforddi a Datblygu
  - Cymorth i Lywodraethwyr
  - Cyfathrebu o ran materion gweinyddol – materion ar-lein sy'n effeithio ar Sicrhau Ansawdd
  - Cadw data mewn un lle a gwella'r ffordd y defnyddir technoleg
- Trefnu cyfarfod arbennig yn y Flwyddyn Newydd i edrych ar yr uchod
- Nodi bod yr argymhellion o'r cynllun archwilio'n cael eu rhoi yn y cynllun busnes
- Egluro'r cysyniad HWB yn fanwl
- Nodi y byddai Gwion yn lanlwytho'r wybodaeth ddata am ysgolion cynradd ar gyfer Fy Ysgol Leol cyn diwedd y tymor.
- Mae Adroddiad Archwilio Mewnol newydd gyrraedd a bydd yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Cytunwyd	Camau Gweithredu
	• Gosod edrych ar y Cynllun Busnes ar yr agenda am y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr • Gosod Adroddiad Archwilio Mewnol ar yr agenda.

7. Unrhyw Fusnes Arall

Diolch i bawb am eu hamser a phob hwyl ar gyfer yr Arolygiad Estyn sydd ar ddod.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10pm

Dyddiad y cyfarfod nesaf:
16 Ionawr 2015
Y Llwyfan
9.30 – 12.30